# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Mawrth 2018

Amser: 08.30 - 08.46

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y ddwy Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 18 Ebrill 2018**

- Cynnig i grwpio'r ddwy eitem a ganlyn i'w trafod ond gan bleidleisio ar wahân (60 munud):
- Cynnig i gymeradwyo Polisi Urddas a Pharch y Cynulliad
- Cynnig i gymeradwyo diwygiadau i God Ymddygiad yr Aelodau.
- ~~Dadl Plaid Cymru~~ – *gohiriwyd tan 25 Ebrill*

**Dydd Mercher 25 Ebrill 2018**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud) – *gohiriwyd o 18 Ebrill*
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Bil Cyllid Gofal Plant (Cymru)

- Cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil Cyllid Gofal Plant (Cymru) at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w ystyried yng Nghyfnod 1.

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ymgynghori ar ddyddiadau cau Cyfnod 1 a Chyfnod 2.

## 5 Amserlen y Cynulliad

### 5.1 Dyddiadau toriadau'r Cynulliad

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes i'r Ysgrifenyddiaeth gadarnhau a oedd y dyddiadau hanner tymor a gynigiwyd ar gyfer hydref 2018 a gwanwyn 2019 yn unol â gwyliau ysgol ledled Cymru, neu a oedd y dyddiadau'n amrywio mewn gwahanol rannau o'r wlad. Bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried y mater eto yr wythnos nesaf, pan fydd y wybodaeth honno ar gael.

## 6 Trefniadau cyflwyno

### 6.1 Trefniadau cyflwyno adeg toriad y Pasg, Gŵyl Fai, a hanner tymor y Llungwyn 2018

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y trefniadau cyflwyno adeg toriad y Pasg, Gŵyl Fai, a hanner tymor y Llungwyn 2018

## Unrhyw fater arall

Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar yr Egwyddorion Cyffredinol a phenderfyniad ariannol y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd yr wythnos hon, bydd Cyfnod 2 yn digwydd mewn Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan ddydd Mawrth nesaf.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y bydd Pwyllgor y Cynulliad Cyfan yn dechrau am 13:00 ac y bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau 15 munud ar ôl iddo orffen.

O dan yr amserlen y cytunwyd arni gan y Cynulliad, bydd Cyfnod 3 y Bil yn cael ei gynnal ddydd Mercher 21 Mawrth. Cytunodd y Rheolwyr Busnes iddo gael ei drafod fel yr eitem olaf o fusnes, er mwyn caniatáu'r cyfnod hwyaf posibl ar gyfer cyflwyno gwelliannau ar ôl cwblhau Cyfnod 2 a pharatoi papurau ac ati.